# Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Hydref 2016
CGGC, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | | |
| Rhodri | Bowen | RB | Uned Pobl a Gwaith |
| Paul | Chaney | PC | Prifysgol Caerdydd (WISERD) |
| Matthew | Close | MC | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Eliot | Farmer | EF (Cofnodion) | Llywodraeth Cymru |
| Sheila | Hendrickson-Brown | SHB | Cyngor Trydydd Sector Caerdydd |
| Catrin | James | CJ | Urdd Gobaith Cymru |
| David | James | DJ | Swyddog Galluogi Tai Gwledig |
| Glyn | Jones | GJ(Cadeirydd) | Llywodraeth Cymru |
| James | Koe | JK (Cofnodion) | Llywodraeth Cymru |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Silvia | Manclossi | SVM | Llywodraeth Cymru |
| Steve | Marshall | SM | Llywodraeth Cymru |
| Carys | Moseley | CM | Cytûn |
| Anthony | Newby | ANW | Llywodraeth Cymru |
| Anna | Nicholl | AN | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Sean | O'Neill | SO | Plant yng Nghymru |
| Hade | Turkmen | HT | Chwarae Teg |
| Lisa | Walters | LW | Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | | |
| Owain Llyr | Ap Gareth | | Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru |
| Jacqueline | Campbell | | Shelter Cymru |
| Martin | Fidler Jones | | RSPCA Cymru |
| Paul | Glaze | | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Carl | Gough | | Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol y DU |
| Allan | Herbert | | Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon |
| Uzo | Iwobi OBE | | Race Council Cymru |
| Lucy | Knight | | Chwarae Teg |
| Ruth | Marks | | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Barbara | Natasegara | | Cymru Ddiogelach |
| Sian | Williams | | Llywodraeth Cymru |
| Victoria | Winckler | | Sefydliad Bevan |
| Sarah | Witcombe-Hayes | | NSPCC |

<table>
<tr><td>1</td><td>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Agorodd GJ ac SL y cyfarfod a chroesawu'r aelodau. Sefydlwyd panel y trydydd sector, sy'n cyfarfod bob chwe mis, gyda chymorth CGGC i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf posibl o ystadegau swyddogol. Pwysleisiodd GJ pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn deall anghenion y rheini yn y Trydydd Sector sy'n defnyddio ystadegau swyddogol a'r wybodaeth ystadegol a ddelir ganddi a fyddai o fudd ehangach.</td><td></td></tr>
<tr><td>2</td><td>Papurau: Diweddariad Ystadegol Chwarterol, demograffeg a'r cyfrifiad</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyflwynodd GJ y diweddariad ystadegol chwarterol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r panel defnyddwyr, a siaradodd am y pynciau yng nghylchlythyr mis Hydref 2016. Hysbyswyd y grŵp hefyd fod prosiect Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob un o giwbiau byw (setiau data) StatsCymru yn ddwyieithog ar 1 Hydref 2016 wedi'i gwblhau.<br><br>Siaradodd GJ am bynciau yn y cylchlythyr demograffeg a gofynnwyd i'r aelodau nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ynglŷn â Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad. Yn ogystal â'r diweddariad demograffeg, nododd GJ fod SYG wedi cyhoeddi amcangyfrifon o'r boblogaeth hen iawn ar gyfer Cymru yn ddiweddar.<br><br>Ychwanegodd SL fod SYG wrthi'n ystyried y posibilrwydd o gynnwys cwestiwn ar wirfoddoli yn y cyfrifiad. Byddai Cyfrifiad 2017 yn cynnwys cwestiynau prawf ar wirfoddoli sy'n cael eu datblygu ar gyfer Cyfrifiad 2021. Awgrymwyd y dylid dosbarthu'r cwestiynau ar wirfoddoli er mwyn cael adborth ar y geiriad. Nododd CJ y dylai'r band oedran ar gyfer y cwestiynau hyn ddechrau'n gynt na'r diffiniad o oedran gweithio.<br><br>Cynigiodd AN y gallai sefydliadau trydydd sector weithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru i drafod yr effaith y mae sectorau wedi'i chael ar feysydd fel lles. Soniwyd am y posibilrwydd o ddefnyddio Porth Data WISERD (Adnodd Darganfod Gwyddorau Cymdeithasol WISERD) i gyrchu data ar y trydydd sector a gwirfoddoli.<br><br>Nododd GJ fod angen dechrau datblygu'r fformat ar gyfer yr adroddiad blynyddol ar y dangosyddion cenedlaethol fel mater o flaenoriaeth, ac efallai y cysylltir â'r panel ynglŷn â hyn cyn y cyfarfod nesaf.</td><td>Cam Gweithredu: AN i ddosbarthu'r cwestiynau posibl ar wirfoddoli er mwyn cael adborth.<br><br>Cam Gweithredu: GJ i drafod gweithgarwch y trydydd sector, a chreu cysylltiadau rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cymru ymhellach gydag AN.</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Gwaith tîm ymchwil gymdeithasol Llywodraeth Cymru</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyflwynodd SM wybodaeth am y gwaith a wneir gan dîm ymchwil gymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r tîm wedi dechrau gwneud mwy o ymchwil fewnol ac wedi bod yn darparu mwy o gyfuniadau o ymchwil sy'n bodoli eisoes. Tynnodd SM sylw at y ffaith bod llawer o ymchwil gymdeithasol yn cael ei harwain gan alw ac felly mae'n ymwneud i raddau helaeth â'r flwyddyn benodol dan sylw.<br><br>Gofynnodd RB gwestiwn ynghylch gwrthrychedd wrth ymgymryd â gwaith ymchwil y llywodraeth. Pwysleisiodd SM bwysigrwydd dilyn y safonau cywir a sicrhau tryloywder a chyfeiriodd at yr Egwyddorion Ymchwil a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru.<br><br>Soniodd SM am y newid diweddar i gyfrannu at gynllun tystiolaeth cyhoeddedig blynyddol sy'n nodi'r ymchwil a'r gwaith ystadegol a ddisgwylir. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn defnyddio un tudalen we ar gyfer ystadegau ac ymchwil, sy'n</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| ei gwneud hi'n haws dod o hyd i bynciau a chyhoeddiadau. Nododd SM fod adborth ynglŷn â defnyddioldeb canfyddiadau ymchwil yn cael ei groesawu bob amser.<br><br>Mae'r tîm ymchwil gymdeithasol hefyd yn rhoi cyngor i gyrff allanol, fel byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ar waith dadansoddi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nodwyd mai'r brif her yw pennu blaenoriaethau ar gyfer pob maes polisi er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl.<br><br>Mae'r digwyddiad cyflenwi ymchwil blynyddol ar gyfer darpar gontractwyr yn debygol o gael ei gynnal ar ddechrau mis Tachwedd.<br><br>Holodd CJ pam nad yw data ar weithgareddau i bobl ifanc, fel yr Urdd, yn cael eu casglu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r archwiliad o'r Gwasanaeth Ieuenctid.<br><br>Gofynnodd HJ gwestiwn ynghylch argaeledd data sydd wedi'u rhannu yn ôl rhyw o fewn grwpiau oedran penodol. Tynnodd SM sylw at y ffaith bod y tîm ymchwil gymdeithasol a'r tîm ystadegau yn anelu at gasglu data â'r nodweddion hyn. Gall setiau data mwy o faint gynnwys mwy o ddata nas cyhoeddwyd, y gellir gwneud rhagor o waith dadansoddi arnynt ar gais. Os oes galw am ddata yn ôl rhyw ac oedran ar gyfer pynciau penodol, gofynnodd GJ i sefydliadau hysbysu'r timau dan sylw.<br><br>Mae'r dadansoddwyr ymchwil gymdeithasol hefyd yn gwneud mwy o ddadansoddiadau atchweliad er mwyn helpu i nodi'r ffactorau sylfaenol sy'n ysgogi dangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | | **Cam Gweithredu: GJ i siarad â'r tîm casglu data ynghylch cwmpas y gwaith o gasglu data ar y Gwasanaeth Ieuenctid.** |
| **4** | **Arolwg Cenedlaethol** | |
| Cyflwynodd LW ac SVM wybodaeth am Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r Arolwg, y gofynnir i 12,000 o ymatebwyr ei gwblhau, yn para 45 munud, ac felly gall gwmpasu ystod eang o bynciau. Dewisir y pynciau o un flwyddyn i'r llall, ac mae SYG wrthi'n gwneud gwaith maes ar hyn o bryd.<br><br>Mae arolwg cyfredol 2016/17 wedi cyfuno pum arolwg mawr, gan sicrhau manteision o ran arbed costau a gwaith dadansoddi, o ystyried y pynciau niferus a'r potensial i gynnal dadansoddiadau ar draws pynciau.<br><br>Cyhoeddir y gyfres gyntaf o ddata, sy'n rhoi trosolwg eang o'r canlyniadau, ym mis Mehefin, ac yna ceir gwaith dadansoddi manylach yn ystod y misoedd dilynol. Soniodd SVM am chwe dull o gyflwyno canlyniadau'r arolwg a chafodd adborth ar y dulliau hynny.<br><br>Nododd CJ fod y samplau'n rhy fach weithiau i'w cyflwyno yn nhablau StatsCymru.<br><br>Roedd yr adborth yn awgrymu bod angen data manwl yn aml, ond bod angen sicrhau bod pawb yn gallu darllen yr allbynnau. Mae ffeithluniau yn gyfyngedig i'r hyn y maent yn ei ddweud wrthych. Mae defnyddwyr gwahanol yn ffafrio pethau gwahanol.<br><br>Pwysleisiodd DJ fod ganddo ddiddordeb yn y rhaniadau gwledig. Gall defnyddio dosbarthiadau cenedlaethol, fel y diffiniadau gwledig/dosbarthiadau o fathau gwahanol o aneddiadau ac ati, fod yn ddigon ar gyfer hyn yn hytrach na dadansoddiadau ar lefel ardal fach. | | **Cam Gweithredu: LW i ystyried yr hyn y gellir ei wneud ynghylch celloedd bach ag ychydig iawn o ddata yn nhablau StatsCymru.** |

| 5 | **Y diweddaraf ar y cynllun gwirfoddoli ar gyfer dadansoddwyr y llywodraeth/sefydliadau Trydydd Sector** | |
|---|---|---|
| Rhoddodd SL gyflwyniad ar y rhaglen Dadansoddwyr Gwirfoddol (AVP). Mae'r cynllun yn trefnu lleoliadau byrdymor i staff dadansoddi'r Llywodraeth ym mhob rhan o'r gwasanaeth sifil, sy'n cefnogi sefydliadau a allai elwa ar eu cymorth.<br><br>Mae'r cynllun wedi'i gyflwyno ledled Cymru, Llundain a De-orllewin a Gogledd Lloegr. Lleolir un neu ddau ddadansoddwr ym mhob sefydliad ac mae'r lleoliadau'n para rhwng hanner diwrnod a phum diwrnod. Bydd y cynllun yn fanteisiol i'r ddau barti ac yn fuddiol iawn i'r sefydliadau hynny sydd â phrinder sgiliau dadansoddi.<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth, astudiaethau achos a manylion gwneud cais yn: https://gss.civilservice.gov.uk/careers/analytical-volunteer-program-avp/. Nododd SL y bydd modd i sefydliadau wneud cais drwy gydol mis Hydref (y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yw 24 Hydref). . | | |
| 6 | **Y diweddaraf ar y prosiect tystiolaeth cyflwr tai** | |
| Rhoddodd SL gyflwyniad i'r prosiect tystiolaeth cyflwr tai sy'n fuddsoddiad mawr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant. Nod y prosiect, a fydd yn mynd rhagddo dros y tair blynedd nesaf, yw sicrhau data a dadansoddiadau er mwyn llywio polisïau'n ymwneud â thai domestig, effeithlonrwydd ynni a mesurau tlodi tanwydd.<br><br>Er bod rhywfaint o ddata'n bodoli eisoes ar elfennau gwahanol o gyflwr tai, mae'n anodd eu cyfuno ac yn aml maent yn gyfyngedig o ran cwmpas. Un o nodau'r prosiect yw gwneud y defnydd gorau posibl o ddata sy'n bodoli eisoes tra'n sicrhau cyfrinachedd. Yn ogystal â hyn, caiff arolwg o gyflwr tai ei gynnal yn 2017/18 mewn cysylltiad ag Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18. Cyflawnir hyn drwy ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â thai yn yr Arolwg Cenedlaethol ac yna ailgysylltu â sampl, gan ddefnyddio syrfëwr i gael mwy o fanylion am gyflwr cartrefi. Ychwanegodd SL y byddai'r cam ailgysylltu'n ymwneud â chartrefi parhaol yn unig fwy na thebyg.<br><br>Mynegodd DJ ddiddordeb yn y rhaniadau Gwledig/Trefol. Soniodd GJ y byddai'r grŵp yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect tystiolaeth cyflwr tai. | | |
| 7 | **Arddangos gallu data agored StatsCymru** | |
| Rhoddodd ANW gyflwyniad ar hanfodion StatsCymru a rhannodd y gallu data agored sydd ar gael yn hawdd gyda'r grŵp. Dangoswyd sut y gall dolenni data agored StatsCymru fwydo'n uniongyrchol i excel, gan alluogi'r defnyddiwr i gwestiynu'r data a'u trin mewn ffordd sy'n diwallu ei anghenion. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen yr ychwanegyn 'power query' (sydd eisoes wedi'i gynnwys yn fersiwn 13 ac uwch) er mwyn defnyddio excel. Cafodd y grŵp ei hysbysu hefyd fod y ddolen i ddata StatsCymru yn fyw; felly gellir diweddaru'r daenlen er mwyn diweddaru'r data. Mae opsiynau manylach ar gael drwy ddefnyddio bwrdd gwaith 'power BI'. Ychwanegodd GJ y bydd modd i sefydliadau gael help gyda data agored yn fuan drwy fideo hyfforddi StatsCymru. | | |
| 8 | **Eitemau Agenda ar gyfer y Dyfodol a Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| Ni chodwyd unrhyw eitemau agenda ar gyfer y dyfodol. Awgrymodd GJ na fyddai dwy awr yn ddigon hir o bosibl ar gyfer cyfarfodydd pellach. Cytunwyd y dylid ymestyn y cyfarfod hanner awr er mwyn gallu trafod agenda lawnach ac | | |

| | | |
|---|---|---|
| am fod mwy o aelodau, a gofynnwyd a fyddai modd osgoi cynnal cyfarfodydd ar brynhawn Gwener. | | |
| **9** | **Unrhyw fater arall** | |
| Siaradodd GJ am y Bil Economi Ddigidol a gyflwynwyd i'r senedd gan Lywodraeth y DU. Roedd cymalau newydd ar rannu data yn ymwneud â chyfathrebu â gwasanaethau cyhoeddus ynghylch ymchwil ac ystadegau. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai SYG dderbyn data gan fentrau gan gynnwys elusennau a busnesau mawr (ac eithrio busnesau bach/micro) at ddibenion ystadegol. http://services.parliament.uk/bills/2016-17/digitaleconomy.html | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru** | | |
| **WCVA, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd**<br>**Dydd Gwener 7 Hydref 2016 - 13:30-15:30** | | |
| **Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu** | | |
| 1 | **AN i ddosbarthu'r cwestiynau posibl ar wirfoddoli er mwyn cael adborth.** | **Anna Nicholl** |
| 2 | **GJ i drafod gweithgarwch y trydydd sector, a chreu cysylltiadau rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cymru ymhellach gydag AN.** | **Glyn Jones** |
| 3 | **GJ i siarad â thîm casglu data'r gwasanaeth ynghylch cwmpas ei waith casglu data.** | **Glyn Jones** |
| 4 | **LW i ystyried yr hyn y gellir ei wneud ynghylch celloedd bach ag ychydig iawn o ddata yn nhablau StatsCymru.** | **Lisa Walters** |